## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Martyn Holland, Alan James, Melvyn Mile, Arwel Roberts, Peter Scott, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), Priffyrdd, a Chyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW); Prif Reolwr – Moderneiddio Addysg (GD); Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Addysg (JC); Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL); Rheolwr Perygl Llifogydd (WH); Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael (HM); Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. (JG) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau

## 2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen – Cynigion Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif –

Y Cynghorydd Meirick Davies – Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog ac Ysgol Trefnant
Y Cynghorydd Peter Scott – Llywodraethwr Ysgol Fabanod Llanelwy
Y Cynghorydd Glenn Swingler – Llywodraethwr Ysgol Pendref
Y Cynghorydd Mark Young – Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Dinbych

Datganodd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts a Bobby Feeley gysylltiad personol ag eitem 8 ar y rhaglen – Gweithredu Model Darparu Amgen ar gyfer amrywiol weithgareddau/swyddogaethau cysylltiedig â hamdden: prydlesu eiddo – gan eu bod yn Gyfarwyddwyr ar Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2019.

**Materion a godwyd** – Tudalen 9, Eitem 5 Strategaeth Lyfrgelloedd 2019 – 22 – cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r fforwm priodol yn cael gwybod am ganlyniad y dadansoddiad ar gymariaethau costau gwasanaeth gydag awdurdodau eraill pan fyddai wedi'i gwblhau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

## 5 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig (Cynigion Band B) ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Roedd y Cabinet wedi cytuno ar y Rhaglen Amlinellol Strategol ym mis Gorffennaf 2017, ac fe gafodd ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017. Y rhaniad o ran cyllid ar gyfer y rhaglen Band A oedd 50% gan Lywodraeth Cymru a 50% gan awdurdodau lleol, ond ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd LlC gyfraddau diwygiedig ar gyfer Band B fel a ganlyn – 65% o gyfraniad gan LlC, ar gyfer ysgolion arbennig gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, cyfraniad o 75% ac ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, 85% gan Lywodraeth Cymru a 15% gan yr Awdurdod Esgobaethol neu'r Corff Llywodraethu. Yn dilyn gwaith dichonoldeb ar ysgolion yn ardal yr adolygiad, roedd rhaglen ddiwygiedig wedi ymddangos gyda'r costau cyfredol yn debygol o fod yn fwy na dyraniad cymeradwy'r rhaglen o £80 miliwn a chyfraniad gan Lywodraeth Cymru o £45 miliwn. Roedd y diwygiadau i'r cyfraddau cyllid hefyd wedi gostwng y rhaniad posib' ar gyfer Sir Ddinbych o £32 miliwn i oddeutu £21 miliwn. Roedd nifer o opsiynau wedi'u hystyried ar y ffordd ymlaen ac yn unol ag argymhelliad y Bwrdd Moderneiddio Addysg, argymhellwyd y dylid mynd at Lywodraeth Cymru i drafod cynnydd posib' yn eu hadnoddau yn seiliedig ar hanes Sir Ddinbych o gyflawni a fforddiadwyedd y cynigion.

Rhoddodd yr Aelod Arweiniol eglurhad ar y cynlluniau buddsoddi ar gyfer y cynigion Band B a oedd yn canolbwyntio ar ysgolion yn ardaloedd Dinbych, y Rhyl a Llangollen ac eglurodd y rhesymau dros unrhyw newidiadau i'r rhaglen a gymeradwywyd yn flaenorol. Ceisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i'r rhaglen ddiwygiedig ac roedd yn awyddus i'r cynigion gael eu datblygu. Trafododd y Cabinet yr adroddiad gyda'r Aelod Arweiniol fel a ganlyn –

- Amlygodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr angen am fuddsoddi mewn ysgolion eraill a oedd y tu allan i'r rhaglen, gan gyfeirio'n benodol at Ysgol Uwchradd Prestatyn. Cytunodd yr Aelod Arweiniol ond eglurodd fod y gwaith

oedd ei angen mewn ysgolion yn llawer mwy na'r cyllid a oedd ar gael ac felly roedd angen cyflwyno proses flaenoriaethu i dargedu'r ardaloedd lle'r oedd yr angen mwyaf. Roedd yr asesiad o ysgolion ar gyfer Band B wedi blaenoriaethu ysgolion o ran eu cyflwr yn gyffredinol ond cadarnhaodd bod buddsoddiadau'n dal i gael eu gwneud mewn ysgolion eraill, gan dynnu sylw at waith adnewyddu penodol a gwaith cynnal a chadw a wnaed yn Ysgol Uwchradd Prestatyn. Yn rhan o gynlluniau yn y dyfodol, byddai angen gwneud gwaith i fesur effaith ysgol newydd Crist y Gair ac ysgol gynradd newydd bosib' y Rhyl ar niferoedd disgyblion yn yr ardal.

- Gofynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley i'r cyfeiriad at "permeations" ar dudalen 11 yn yr adroddiad Saesneg gael ei newid i "permutations".
- Ceisiodd y Cynghorydd Mark Young sicrwydd ynghylch cyfathrebu a chadarnhaodd yr Aelod Arweiniol y cysylltwyd â phob pennaeth ynghylch yr adroddiad ac y byddai ymgynghoriad ehangach gydag ysgolion a llywodraethwyr wrth i faterion ddatblygu.
- Bu i'r swyddogion adrodd ar ddewisiadau eraill a ystyriwyd fel y ffordd ymlaen, gan gynnwys lleihau cwmpas y rhaglen ac ariannu prosiectau y tu allan i'r rhaglen honno'n llawn. Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad ac na dderbynnid ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru, byddai dewisiadau eraill yn cael eu hailystyried.
- O ran amserlen, roedd disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru erbyn Mawrth 2020.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion hefyd i gwestiynau gan aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet fel a ganlyn –

- A rhoi y byddai LlC yn ymateb yn gadarnhaol, byddai'r swyddogion wedyn yn creu rhaglen o waith wedi'i gynllunio a byddai modd gwneud sawl prosiect ar unwaith fel y gwelwyd yn rhaglen Band A.
- eglurodd ymhellach bod y diffyg tir addas yn Llangollen yn golygu na fyddai posib' adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Dinas Brân fel y bwriedid yn wreiddiol ac felly byddai'r buddsoddiad yn canolbwyntio ar adnewyddu. Roedd y Cynghorydd Melvyn Mile yn awyddus i sicrhau na fyddai disgyblion Sir Ddinbych dan anfantais ac fe'i sicrhawyd na fyddai unrhyw effaith newidiol o ran hynny. Byddai safon y gwaith adnewyddu gystal ag adeilad newydd a gellid gwneud gwaith heb effeithio ar allu'r ysgol i weithredu nac ar y cynnig addysgol i'r disgyblion.
- O ran datblygiadau tai newydd yn Rhuddlan a Dyserth, byddai angen gwneud gwaith o ran yr effaith ar niferoedd disgyblion a chapasiti gan ystyried buddsoddiadau eraill a oedd wedi'u cynllunio a byddai angen ystyried categori ieithyddol unrhyw ysgol newydd bosib' yn ofalus.
- o ran amgylchiadau pob ysgol ffydd unigol, cytunodd yr Aelod Arweiniol i drafod y rheiny y tu allan i'r cyfarfod gyda'r Cynghorydd Martyn Holland. O ran Ysgol Santes Ffraid, yr Ymddiriedolwyr oedd piau'r tir a byddai angen i Ymddiriedolwyr yr ysgol gyfrannu tua £2.5 miliwn (15%) tuag at y cynllun arfaethedig gyda LlC yn ariannu 85%.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch setliad drafft y gyllideb yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyfeiriad penodol at y rhaglen ysgolion yn y setliad hwnnw.

Cefnogodd y Cabinet argymhellion yr adroddiad ac yn dilyn hynny –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol (Atodiad 1 yr adroddiad) i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru, a*

*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 6 CYNIGION I DDIWYGIO CYLCH GORCHWYL AR GYFER Y GRŴP CYNLLUNIO STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Mark Young yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddiwygiadau i Gylch Gorchwyl y Grŵp Cynllunio Strategol.

Cymeradwyodd y Cabinet sefydlu Grŵp Cynllunio Strategol (GCS) a'i Gylch Gorchwyl ym mis Ionawr 2018 yn lle Grŵp Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Y bwriad oedd sefydlu Grŵp llai, mwy cryno i roi arweiniad corfforaethol wrth ddatblygu'r CDLl newydd nes y byddai'n cael ei fabwysiadu'n ffurfiol. Roedd gan y Grŵp swyddogaeth anweithredol ond roedd yn adrodd yn ôl ac yn gwneud argymhellion i'r Cabinet a/neu'r Cyngor yn ôl yr angen. Yng nghyfarfod y Grŵp Cynllunio Strategol fis Gorffennaf 2019, cynigiwyd y dylid diwygio'r Cylch Gorchwyl ac yn dilyn trafodaethau pellach yng nghyfarfodydd Briffio'r Cabinet a'r Grŵp, argymhellodd y Grŵp –

- na ddylid newid aelodaeth graidd y Grŵp
- dylai cyfarfodydd fod yn agored i'r holl aelodau
- dim ond arsylwi cyfarfodydd y gallai aelodau nad oeddent yn aelodau craidd o'r Grŵp ei wneud, ac nid cyfrannu na siarad
- i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i'r Grŵp gyfarfod yn fwy aml yn ôl yr angen, dylai'r Grŵp gyfarfod pob dau fis neu fel y cytunir.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Grŵp Cynllunio Strategol ac roedd barn gymysg ynghylch effeithiolrwydd prosesau i ymgysylltu a sicrhau bod cyfle i'r holl aelodau leisio barn a dylanwadu ar drafodaethau ac argymhellion, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y CDLl. Er bod rhai aelodau'n teimlo bod y prosesau'n gweithio'n dda iddynt hwy a bod digon o gyfle i godi materion a rhoi adborth trwy Grwpiau Ardal yr Aelodau, roedd eraill yn cwestiynu effeithiolrwydd y broses, yn enwedig lle'r oedd gwahaniaeth barn ar bolisïau neu strategaethau penodol a oedd dan ystyriaeth, a lle'r oedd cyfarfodydd Grwpiau Ardal yr Aelodau'n cael eu canslo ac yn dibynnu ar gynrychiolwyr y Grwpiau hynny. Canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn –

- Roedd y Cynghorydd Brian Jones yn teimlo bod y Grŵp Cynllunio Strategol wedi cyflawni ei bwrpas ac y dylid ei ddiddymu. Credai fod y Cylch Gorchwyl yn annemocrataidd gan nad oedd yn caniatáu i aelodau siarad a theimlai y dylai pob aelod allu cyfrannu. Roedd yn gwybod am aelodau eraill a oedd yn anhapus â'r trefniadau cyfredol.

- dywedodd yr Arweinydd bod llawer o waith gan y Grŵp i'w wneud eto ac roedd yn credu bod Grwpiau Ardal yr Aelodau'n rhan bwysig o sicrhau trafodaeth agored a mewnbwn i ffocws a chyfeiriad gwaith y Grŵp. Roedd y broses yn gweithio'n dda i Grŵp Ardal Rhuthun ac os oedd unrhyw broblemau'n codi o arsylwi cyfarfodydd y Grŵp Cynllunio Strategol, gellid eu codi trwy Grwpiau Ardal yr Aelodau. Roedd hefyd yn teimlo bod y broses ddemocrataidd wedi cael ei pharchu, gyda chyfle i'r holl aelodau fod yn rhan.
- Amlygodd y Cynghorydd Richard Mainon mai grŵp heb fod yn un gweithredol ydoedd, gydag ond chwe aelod o Grwpiau Ardal yr Aelodau, ond roedd ganddo rôl ddylanwadol wrth lunio'r CDLl newydd, a fyddai'n cael effaith hirdymor enfawr. O ystyried rôl hanfodol bwysig y Grŵp, teimlai ei bod yn anghywir gwahardd aelodau rhag cyfrannu a siarad yn y cyfarfodydd hynny a dywedodd hefyd, gan fod dau gyfarfod Grŵp Ardal Aelodau Elwy wedi'u canslo, na fu unrhyw gyfle iddynt leisio barn oherwydd y prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd, ac roedd ardal Grŵp Elwy, o bosib', yn un o'r rhai a oedd yn cael ei heffeithio fwyaf yn y sir. Roedd y Grŵp i'w weld wedi mabwysiadu deinameg gwleidyddol ond nid oedd yn wleidyddol gytbwys a theimlai y byddai'n briodol i'r grŵp fod yn wleidyddol gytbwys a chael ei gynyddu i ddeuddeg.
- Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley ei bod yn gefnogol i'r Grŵp ac yn hyderus i drafod unrhyw fater gyda'r aelod perthnasol a oedd ynghlwm. Teimlai bod anghytuno'n naturiol ond nid oedd yn credu bod hynny oherwydd gwleidyddiaeth. Credai ei bod yn hytrach yn ymwneud â gwahanol ardaloedd Grwpiau'r Aelodau o fewn y sir a theimlai fod gan yr aelodau ran i'w chwarae i sicrhau llwyddiant y trefniadau a oedd ar waith.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol i'r materion a godwyd a rhoddodd sicrwydd ei fod o a'r tîm yn fodlon parhau i gyfarfod gyda'r aelodau i drafod materion yn ymwneud â'r CDLl ac ymateb i unrhyw bryderon a godwyd, a rhoddodd rai enghreifftiau cadarnhaol lle'r oedd y drefn honno wedi gweithio'n dda. Roedd y swyddogion yn gweithio'n galed i ymgysylltu a byddent yn mynd i bob cyfarfod Grŵp Ardal yr Aelodau yn ystod mis Ionawr/Chwefror i ymgynghori mwy gyda'r aelodau. Roedd y Grŵp wedi'i sefydlu'n benodol fel Grŵp bach ac roedd Grwpiau Ardal yr Aelodau'n rhan allweddol o'i lwyddiant, ac roedd cynrychiolwyr i'r Grwpiau Ardal yn cael eu dewis gan bob un o'r rheiny. Anogodd yr aelodau i gefnogi a herio'r Grŵp a'i waith i symud ymlaen er lles yr awdurdod yn hytrach na'i wneud yn fater gwleidyddol. Ymatebodd y Prif Weithredwr o safbwynt swyddog gan ddweud bod llawer o waith eto i'w wneud ar y CDLl ac roedd angen i'r aelodau graffu ar lawer ohono. Y rheswm dros Grŵp llai oedd i graffu'n fanwl ar yr holl waith gan na ellid gwneud hynny trwy gyfrwng y Cyngor llawn, ond gellid bod yn sicr y byddai materion yn dod ger bron y Cabinet a'r Cyngor i gael eu hystyried. Er mwyn eglurder, dywedwyd nad oedd gan y Grŵp unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau, dim ond argymhellion.

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts senario lle'r oedd gwahaniaeth barn o fewn Grwpiau Ardal yr Aelodau a holodd ar ba bwynt yn y broses y gallai'r aelod lleol newid neu ddylanwadu ar faterion. Bu iddo hefyd ategu pryderon blaenorol Grŵp Ardal Rhuthun ynghylch y lleihad arfaethedig i dir cyflogaeth. Atebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion gan ddweud bod pob prif gam yn y CDLl yn benderfyniad i'r Cyngor llawn ac y byddai pob aelod yn eu trafod. O ran Grwpiau Ardal yr Aelodau, cyfrifoldeb cynrychiolydd y Grŵp Ardal Aelodau ar y

Grŵp Cynllunio Strategol oedd adrodd yn ôl wrth eu Grŵp Ardal a gallent adrodd yn ôl lle'r oedd anghytundeb rhwng aelodau'r Grŵp Ardal. Nid oedd y Grŵp Cynllunio Strategol yn gorff penderfynu ac ni allai ond gwneud argymhellion. O ran tir cyflogaeth yn Rhuthun, roedd llawer o waith wedi bod ar fynd ac roedd swyddogion wedi cyfarfod ag aelodau lleol ar y safle ac roeddent yn fodlon trafod unrhyw bryderon a oedd yn cael eu codi gan aelodau. Byddai swyddogion yn dod at bob Grŵp Ardal yr Aelodau yn y Flwyddyn Newydd i drafod safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd a'r broses ar gyfer hynny a fyddai'n rhoi mwy o gyfle i aelodau godi unrhyw faterion.

Gwahoddodd yr Arweinydd gwestiynau gan aelodau nad oeddent ar y Cabinet. Roedd y Cynghorydd Meirick Davies yn credu'n gryf y dylai pob aelod gael cyfle i siarad yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynllunio Strategol a gan fod cyfarfod diwethaf Grŵp Ardal Elwy wedi cael ei ganslo, ni fu unrhyw gyfle i leisio barn yn y broses. Awgrymodd y Cynghorydd Peter Scott y dylid cynyddu maint y Grŵp i ganiatáu cynrychiolydd ychwanegol i Grwpiau Ardal yr Aelodau a chredai y dylai dirprwy gynrychiolwyr y Grwpiau Ardal hefyd fynd i bob cyfarfod at ddibenion parhad. Eglurodd yr Arweinydd bod y newidiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl wedi'u hargymell i'r Cabinet gan y Grŵp Cynllunio Strategol ynghylch y ffordd orau iddynt symud ymlaen a chadarnhaodd yr Aelod Arweiniol y gallai fod rywfaint o ddisgresiwn i aelodau nad oeddent ar y Grŵp siarad dan amgylchiadau penodol. O ran cyfathrebu, soniodd y Prif Weithredwr am waith ymgynghori sylweddol gyda'r aelodau a budd-ddeiliaid yn ehangach gan ailadrodd bod gan Grwpiau Ardal yr Aelodau a'u cynrychiolwyr ar y Grŵp Cynllunio Strategol rôl glir o ran cyfathrebu i sicrhau bod adborth rhwng y Grwpiau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Alan James (cynrychiolydd Grŵp Ardal y Rhyl) at waith caled y Grŵp Cynllunio Strategol a'r adborth rheolaidd rhwng y grwpiau.

Ar ôl ystyried argymhellion y Grŵp Cynllunio Strategol, pleidleisiodd 4 o'r Cabinet o blaid yr argymhellion a 3 yn eu herbyn ac o ganlyniad –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Cynllunio Strategol (Atodiad 1 i'r adroddiad).*

## 7 POLISÏAU CYFLOGAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Mainon yr adroddiad yn argymell mabwysiadu dau bolisi cyflogaeth a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur cydnabyddedig oedd yn trafod (1) Diswyddo a (2) Recriwtio a Dewis.

Dywedwyd wrth y Cabinet am yr adolygiad cylchol o bolisïau cyflogaeth i sicrhau eu bod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu cyflawni'n dda. Roedd y ddau bolisi wedi eu llunio yn dilyn cydweithio cadarnhaol drwy'r broses ymgynghori y cytunwyd arni ac fe gawsant eu cymeradwyo'n unfrydol gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Cyflogaeth. Darparwyd crynodeb o bob polisi ac eglurodd y Cynghorydd Mainon bod y polisi Disgyblu'n adlewyrchu'r weithdrefn a ddilynir yn well ac yn cynnwys dogfen Asesiad Risg Gwaharddiad ynghyd â phroses gyflym i gael ei rhoi ar waith gan y gweithiwr i ganiatáu i achosion gael eu trin yn amserol. Roedd y Polisi Recriwtio a Dewis yn cynnwys adran ar Lwybrau Gyrfa i hwyluso dringo o fewn yr awdurdod ac yn dilyn

deddfwriaeth newydd, roedd y Cynllun Gwarantu Cyfweliad wedi'i ddileu ac fe gafodd yr adran 'Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd' ei chynnwys.

Cefnogodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argymhellion a'r lefel o ymgynghori ar y polisïau ac arweiniodd at gymeradwyaeth unfrydol gan ochr y cyflogwr a'r gweithwyr o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd, ehangodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd ar bwrpas y broses gyflymach y gallai gweithwyr ofyn amdani mewn achosion o gamymddwyn lefel isel a oedd wedi'i llunio ar y cyd â'r undebau llafur. Eglurodd ac amlygodd hefyd rinweddau'r broses ymgynghori ar ddatblygu polisi i bob ochr gydweithio.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo'r polisïau cyflogaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad i'w mabwysiadu, a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (atodiad i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

**8 GWEITHREDU MODEL DARPARU AMGEN AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/SWYDDOGAETHAU HAMDDEN: PRYDLESU EIDDO**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i roi un ar bymtheg o brydlesi, a phob un am gyfnod o ddeng mlynedd ar rent rhad, i Hamdden Sir Ddinbych Cyf ar delerau fel maent wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Ym mis Mai 2019, cytunodd y Cabinet i sefydlu Hamdden Sir Ddinbych Cyf, sy'n Gwmni Masnachol Awdurdod Lleol, cyfyngedig drwy warant, sy'n eiddo'n gyfan gwbl i'r Cyngor. Roedd y adroddiad yn cynrychioli cam arall yn y broses honno yn ymwneud â phrydlesu un ar bymtheg eiddo i Hamdden Sir Ddinbych fel roedd yr adroddiad yn nodi, ynghyd â'r telerau nodedig. O ystyried yr amryw faterion penodol i safleoedd lle mae angen mwy o eglurder a manylder y gallai Hamdden Sir Ddinbych fod eisiau eu codi, argymhellwyd y dylid rhoi'r prydlesi ar sail y brydles safonol ddrafft gan roi pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo ar y cyd ag Aelod Arweiniol Cyllid a Phennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd i gytuno ar fân amrywiadau mewn perthynas â'r materion hynny. Byddai unrhyw wyriad sylweddol oddi wrth y brydles safonol yn dod yn ôl ger bron y Cabinet. Cyfeiriwyd hefyd at elfen y Dreth Trafodion Tir a sefyllfa Sir Ddinbych o ran hynny, a oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley bod ganddi nifer o bwyntiau i'w codi ynghlwm â'r prydlesi ac roedd yn falch bod proses ar waith i gytuno ar amrywiadau dilynol. Cwestiynodd hefyd lefel yr ymgynghori ac amlygodd nad oedd Pennaeth Hamdden wedi'i gynnwys yn rhan o'r broses honno. O ran y risgiau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, roedd hi'n teimlo, o ystyried natur unigryw'r achos hwn, na fyddai unrhyw fantais o gynnwys y risgiau ynghlwm â chyfranogiad y Cyngor a'i rwymedigaethau. I ategu'r pwynt hwnnw, er eglurder, dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf bod rhwymedigaethau ar y ddwy ochr yn

nhrefniadau'r prydlesi ond nad oedd yr adroddiad ond wedi cyfeirio at y risgiau ynghlwm â Hamdden Sir Ddinbych ac nid ynghlwm â'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau ei hun yn hynny o beth. Gan ymateb i'r materion a godwyd eglurodd yr Aelod Lleol a'r swyddogion bod –

- y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor ac felly roedd yr adroddiad yn cynnwys y risgiau posib' i'r Cyngor a oedd angen eu hystyried wrth benderfynu a ddylid caniatáu'r prydlesi ai peidio ar sail yr hyn sydd yn yr adroddiad. Roedd angen i'r Cyngor ystyried ei fuddion ei hun a sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â threfniadau'r prydlesi. Gallai fod risg i Hamdden Sir Ddinbych, yn dibynnu ar ymddygiad y Cyngor, ond ni fyddai'r risg honno wedi'i chynnwys yn yr adroddiad gan nad oedd y Cyngor yn risg iddo ef ei hun. Y lle priodol i gofnodi'r risgiau i Hamdden Sir Ddinbych fyddai eu Cofrestr Risg eu hunain.
- ymgynghoriadau wedi'u cynnal mewn perthynas â'r Model Darparu Amgen gyda'r rheiny sydd wedi'u rhestru yn yr adroddiad ac o ran safleoedd penodol, roeddent yn cynnwys ymgynghori â Chyngor Tref y Rhyl o ran eu diddordeb yn SC2, Cyngor Celfyddydau Cymru o ran cyllid grant ynghyd ag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen o ran Pafiliwn Llangollen a oedd heb eu rhestru.

Cododd y Cabinet gwestiynau pellach ynglŷn â'r risgiau i'r Cyngor ynghyd â'r 'haniad cyfrifoldebau rhwng y Cyngor a Hamdden Sir Ddinbych, yn benodol o ran cynnal a chadw, ynghyd â goblygiadau ariannol cyflawni rhwymedigaethau'r prydlesi o ran hynny a'r effaith o ganlyniad ar lwyddiant ariannol Hamdden Sir Ddinbych.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion y cwestiynau fel a ganlyn –

- roedd y risg na fyddai'r Model Darparu Amgen mor ariannol lwyddiannus â'r gobaith wedi'i chynnwys ym mhob adroddiad ynghlwm â'r Model Darparu Amgen, gan amlygu y byddai unrhyw gostau ychwanegol o hynny'n disgyn ar y Cyngor i'w hariannu.
- egluro sefyllfa'r Cyngor o ran y Dreth Trafodion Tir a oedd yn daladwy, gan ddweud bod cyngor diweddar wedi pennu y byddai'r Cyngor yn agored i dalu'r dreth honno yn seiliedig ar werth y brydles. O ystyried bod y Cyngor wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i Hamdden Sir Ddinbych gyda'r rhenti rhad, nid oedd unrhyw werth i'r brydles mewn gwirionedd a byddai achos cadarn yn cael ei ddadlau yn hynny o beth. O ganlyniad, nid oedd yn cael ei ystyried yn risg sylweddol, ond pe bai'r sefyllfa'n cael ei herio'n llwyddiannus gan Awdurdod Refeniw Cymru, byddai'r mater yn dod yn ôl ger bron y Cabinet.
- egluro bod Hamdden Sir Ddinbych a'r Cyngor yn endidau cyfreithiol ar wahân ond roedd Hamdden Sir Ddinbych yn eiddo i'r Cyngor ac yn cael ei reoli ganddo felly byddai cyfrifoldebau i'r ddau ynghlwm â'r prydlesi.
  Roedd y Cyngor yn rheoli ac yn gyfrifol am gyflawni ei rwymedigaethau o fewn y brydles ac roedd yn parhau i fod yn gyfrifol am y strwythur a rhannau allanol yr adeiladau a byddai Hamdden Sir Ddinbych yn gyfrifol am gynnal a chadw'r safleoedd yn fewnol; byddai arolygon cyflwr yn cael eu cynnal a byddai llinell sylfaen yn cael ei chytuno ymlaen llaw o ran cyflwr yr asedau.
- roedd yr adroddiadau cyflwr yn gosod y meincnod i sut y byddai'r ddwy ochr yn cynnal asedau a oedd yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor ac yr oedd o fudd i'r

Cyngor sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw a'u bod yn parhau i weithredu.

- roedd y trefniadau llywodraethu y tu allan i'r prydlesi hyn yn cynnwys bwrdd gweithredol a bwrdd strategol i fonitro'r holl risgiau hynny. Pe bai amgylchiadau annisgwyl yn effeithio ar weithrediad llwyddiannus y cyfleusterau, mae'n debygol y byddai'r mater yn dod ger bron y ddau fwrdd a gallai'r Cyngor yn y pen draw benderfynu talu am yr atgyweiriadau gydag adnoddau o fewn y flwyddyn. Byddai trefniadau'r prydlesi a'r trefniadau llywodraethu'n lliniaru unrhyw risgiau o'r fath.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) rhoi cymeradwyaeth i ganiatáu prydlesi 10 mlynedd i Hamdden Sir Ddinbych Cyf ar gyfer pob un o'r safleoedd am rent rhad. Bydd y prydlesi wedi'u seilio ar brydlesi safonol (Atodiad 3 i'r adroddiad). Bydd addasiadau penodol i'r safle yn cael eu cynnwys ym mhob un o'r prydlesi hyn er mwyn ymgorffori: cytundebau defnyddwyr blynyddol ar y cyd, rhwymedigaethau cyllidwyr grant, gofynion y Comisiwn Elusennau, cyngor gan ymgynghorwyr treth CSDd, meddiannaeth trydydd parti, yn ogystal ag unrhyw drefniadau lleol ar y safleoedd; rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Eiddo gytuno, wrth ymgynghori ag Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Ar y pwynt hwn (11.35 am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cyng. Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2019/20 oedd £198.538 miliwn (£194.418 miliwn yn 2018/19).
- rhagwelid y byddai gorwariant o £1.678 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol.
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol.
- nodwyd fod angen arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £5.672 miliwn, gan gynnwys arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2018/19 (£0.5 miliwn), arbedion ysgolion gwerth 2% (£1.32 miliwn) ac arbedion yn y gwasanaethau (£3.852 miliwn), gyda dyraniad cymeradwy o £616,000 o Gronfa Wrth Gefn Cyflawni Arbedion i dalu am arbedion heb eu cyflawni.
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo Sylfaen Treth y Cyngor i osod cyllideb 2020/21, a oedd yn gyfrifiad technegol fel yr oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ddatblygiad yr ysgol newydd ar gyfer Ysgol Llanfair a datblygiad tai mawr arall yn y pentref a oedd, gyda'i gilydd, yn achosi amhariadau mawr. Er ei fod yn croesawu twf a buddsoddiad yn yr ardal, teimlai y gellid dysgu gwersi o ran rheoli dull cydlynol wrth gau ffyrdd ac ati, gan ddweud bod angen rhyw ffurf ar ymgysylltu â datblygwyr a'r gymuned i gyfathrebu a threfnu gwaith penodol i gael yr effaith leiaf bosib'. Soniodd yr Aelod Arweiniol am y berthynas dda gyda chontractwyr a oedd yn gwneud prosiectau ysgol mawr a chadarnhaodd bod strategaeth gyfathrebu'n cael eu chyflawni drwy'r fframwaith caffael. Roedd llai o reolaeth dros ddatblygwyr preifat ond gallai fod gyfleoedd yn y dyfodol i drosglwyddo cynnydd sydd wedi'i wneud gan y Tîm Caffael ar brosiectau mwy'r Cyngor i ddatblygiadau tai fel roedd amser yn mynd yn ei flaen. O ran yr oedi a oedd yn cael ei achosi gan waith cysylltu draeniau dŵr budr, bu cost o ganlyniad ond roedd wedi'i chynnwys yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer y prosiect.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*

*(b) cymeradwyo Sylfaen Treth y Cyngor i osod cyllideb 2020/21 fel y manylir yn Atodiad 6 yr adroddiad.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol –

- Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – wedi'i ohirio o fis Ionawr i fis Chwefror
- Trefniant Llywodraethu 2 Cynnig Twf Gogledd Cymru – Chwefror (gallai gael ei ohirio)
- Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol – Chwefror

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A o'r Ddeddf.*

## 11 CYNLLUN AMDDIFFYN ARFORDIR DWYRAIN Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio awdurdodiad y Cabinet i amrywio'r contract cyn-adeiladu mewn perthynas â

Chynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl yn seiliedig ar werth diwygiedig i'r contract.

Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo cam adeiladu'r cynllun ym mis Medi 2019. Oherwydd nad oedd y gweithgareddau adeiladu'n cychwyn tan fis Ebrill 2020, roedd cyfle i ddod â rhai o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer y cam adeiladu ymlaen a'u cyflawni yn ystod y cam cyn-adeiladu. Byddai hyn yn lleihau costau'r cam adeiladu a gallai hefyd leihau cost gyffredinol y cynllun a lleihau'r risgiau o oedi wrth ymdrin ag amgylchiadau annisgwyl. Roedd manylion goblygiadau ariannol y cynllun ynghyd â gwerth diwygiedig y contract cyn-adeiladu wedi'i nodi yn yr adroddiad. Roedd angen awdurdodiad y Cabinet oherwydd gwerth y contract. Mewn ymateb i gwestiynau, darparodd y Rheolwr Perygl Llifogydd fwy o fanylion am y gwaith a oedd i gael ei wneud yn ystod y cyfnod cyn-adeiladu a chadarnhaodd y manteision o nodi unrhyw risgiau ar gam cynt yn y broses er mwyn ymdrin â nhw fel y bo'n briodol.

Nododd y Cabinet na fyddai'r gweithgareddau cyn-adeiladu ychwanegol yn cynyddu cost gyffredinol y prosiect a nododd y manteision o ddod â rhai gweithgareddau ymlaen i'r cam cyn-adeiladu. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) awdurdodi'r amrywiad i'r contract cyn adeiladu, yn seiliedig ar werth contract diwygiedig fel y nodir o fewn yr adroddiad, a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

**12 CYTUNDEB TRWYDDEDU MICROSOFT ENTERPRISE**

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Mainon yr adroddiad cyfrinachol ynghlwm â'r broses gaffael ar gyfer Trwydded Microsoft ac argymhellodd ddyfarnu'r contract am gyfnod o dair blynedd.

Rhoddwyd rhywfaint o gefndir ynghylch darpariaethau'r contract a'r broses gaffael a ddefnyddiwyd yn yr achos hwn. Roedd adroddiad atodol (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn rhoi mwy o fanylion ar y cyflwyniadau tendro ynghyd â'r meini prawf gwerthuso a'r broses asesu a arweiniodd at y Darparwr Datrysiadau Trwyddedu Microsoft a argymhellwyd. Tynnwyd sylw'r Cabinet hefyd at y manylion ariannol fel roeddent wedi'u nodi yn yr adroddiad a'r bwlch cyllid ym mlynyddoedd 2 a 3 a sut y gellid mynd i'r afael â hwnnw. Argymhellwyd y dylid gweithredu'r penderfyniad i ddyrannu'r contract ar unwaith o ystyried bod y cytundeb trwyddedu cyfredol yn dod i ben ar 29 Rhagfyr 2019.

Ystyriodd y Cabinet yr ymarfer caffael diweddar a chanlyniad y broses honno ynghyd ag argymhellion yr adroddiad ac o ganlyniad –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *cytuno’n ôl-weithredol i ddyrannu'r broses gaffael ar gyfer Trwyddedau Microsoft drwy Fframwaith Masnachol y Goron, a elwir yn RM 3733 ac i ddyfarnu’r contract i Ddarparwr Datrysiadau Trwyddedu (fel y manylir o fewn yr adroddiad a rannwyd yn y cyfarfod) er mwyn creu archeb drwyddedu gyda Microsoft, a*

*(c)* *cadarnhau ei bod yn rhaid gweithredu’r penderfyniad ar unwaith yn unol â pharagraff 7.25 yng nghyfansoddiad y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.22pm.